



Cafodd morwyr coll, band yn syth o strydoedd Bollywood, a pheilot crwydrol dynnu eu lluniau gan y paparazzi yn nigwyddiad cyntaf am ddim y Rhyl eleni.

Ymgasglodd trigolion ac ymwelwyr am ddiwrnod o hwyl a gemau ar y stryd fawr i ddathlu Diwrnod y Maer.

Fel rheol, caiff ei gynnal ym mis Mai, ac mae'n ddigwyddiad blynyddol Cyngor Tref y Rhyl i roi cyfle i'r maer ddiolch i'r bobl leol am eu cefnogaeth.

Mae diwrnod arbennig eleni yn gynt oherwydd etholiadau lleol mis Mai. I faer presennol y Rhyl, y Cyngorydd Diane King, mae wedi bod yn arhosiad hir.

Roedd i fod yn faer yn 2020, ond roedd y pandemig yn golygu bod yn rhaid iddi aros am flwyddyn bellach i gymryd y swydd.

“Bu adegau,” meddai'r Cyngorydd King, “pan roedd yn teimlo fel na fyddai'n digwydd. Ond er gwaethaf y ffaith ei bod ychydig yn oerach nag arfer, rydym wedi llwyddo cael diwrnod llawn hwyl. Ymunwyd â'r Cyngor Tref gan fand pres hynod Bombay Baja , yn chwarae cerddoriaeth glasurol gyda blas Indiaidd arni.



“Daeth ein morwyr coll â’u jôcs gwael, a chwch - HMS Punafore. Cawsom gemau a crefftau di-ri, gyda’r cwbl wedi ei gofnodi gan ein paparazzi cerflun byw. Mae digwyddiadau am ddim y Cyngor Tref bob amser yn cynnig rhywbeth gwahanol, ac nid yw eleni yn wahanol.”

Y peth nesaf yw Diwrnod Brenhinol y Rhyl, digwyddiad am ddim i ddathlu Jiwbilî Platinwm y Frenhines. Bydd hyn ar ddydd Sadwrn 4 Mehefin ar Stryd Fawr y Rhyl ac mae’n cynnwys Brenhines deithiol 4 medr o uchder gyda llwyfan.

“Bydd rhywbeth i bawb dros y misoedd nesaf ac edrychwn ymlaen at gynnig blwyddyn arall o adloniant am ddim a gweithgareddau i bob oedran,” meddai’r Cyngorydd King.

I weld beth sy’n digwydd, ewch i www.rhyltowncouncil.org neu @rhyltowncouncil ar Facebook, Twitter ac Instagram.

Caps (lluniau gan Gunsmoke Communications):

- Y Cyngorydd Diane King yn hedfan yn uchel
- Bombay Baja yn taro’r nodyn iawn
- O’r chwith Kayla 10, a Silvan 10, o’r Rhyl gyda’u wynebau wedi eu peintio
- Snap! Cerfluniau byw o flaen y camera
- Ahoy! Y Cyngorydd Diane King yn paratoi i hwylio
- Tia, Ellie a Isaac yn gwneud awyrennau papur
- Ar goll? Pa ffordd i’r rhain?
- Snap! Y Maer, hy Cyngorydd Diane King a Chyngorydd Tref y Rhyl Barry Mellor o flaen y camera.

